



**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR
20 CHWEFROR 2019**

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Pwnc: Categorioidio Cenedlaethol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y broses Categorioidio Cenedlaethol.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r broses gategorioidio yn un barhaus drwy gydol tymor y gwanwyn, yr haf a'r hydref.

2.2 Trafodir gategorioidio gydol y flwyddyn â chynrychiolwyr AauLI yn y Byrddau Ansawdd Sirol a gynhelir bob pythefnos.

2.3 Nod y System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio Ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n rhoi ystyriaeth i ba mor dda y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i berfformio'n well.

2.4 Mae'r system yn dangos pa ysgolion y mae arnynt angen y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf i wella. Mae hefyd yn dangos pa ysgolion sy'n perfformio'n dda ond a allai wneud hyd yn oed yn well a pha ysgolion sydd eisoes yn effeithiol iawn ac a allai helpu ysgolion eraill i berfformio'n well.

2.5 Caiff pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail y categorïau hyn.

2.6 Nid labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair yw nod y system. Ei hamcan yn hytrach yw helpu ysgolion i nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu cynnydd a'u lefelau cyflawni, a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Dadansoddir y categorïedd yn llawn a'r grynodedb rhanbarthol yn Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categori Cenedlaethol.

3.2 Pob ysgol

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorïedd fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19. Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorïedd yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel gwyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.

3.3 Cynradd

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorïedd fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorïedd yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.

3.4 Uwchradd

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorïedd fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorïedd fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn

17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.

3.5 Arbennig

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yn aros yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei categorio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yn aros yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei categorio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd yn aros yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categorioidio Cenedlaethol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.